WG35-5-34

# MARWNAD

I'R DIWEDDAR

# BARCH. JOHN EDWARDS,

GWEINIDOG YR EFENGYL YN PENIEL,

CAERFYRDDIN;

Yr hwn a fu farw ar yr 20fed o Dachwedd, 1844, yn 33ain oed.

GAN JOHN EVANS,

*Gwehydd, Penybont.*

1 BETH yw'r cwyno a'r galaru
Sy'n amgylchu pob rhyw le!
Angau creulawn sy'n gweithredu
Yma'n wastad tan y ne',
Mae ei weithred yn achosi
Llawer fod yn brudd eu bron,
Mewn Eglwysi a theuluoedd,
Tra bom ar y ddaear hon.

2 Cymer weithiau dad o'r teulu,
A'r amddifaid ar ei ol,
Gwraig yn wylo yn ei galar,
Tori mae, ni thry yn ol;
Cymer weithiau y Gweinidog,
A'r Eglwys fydd mewn galar blin,
Tyr yr undeb mwyaf agos,
'N ddiwahaniaeth bob yr un.

3 'Mhlith y rhai'n mae Heol y Prior,
Y mae ynddi alar dwys
'Nawr, waith colli ei Gweinidog,
A'i ddodi'n isel dan y gwys;

X205308400

'R enwog Edwards a gymerodd,
Er maint yw'r galar ar ei ol;
Fe adawodd wlad y ddaear,
Ac ni ddychwel byth yn ol.

4 Efe a deithiodd trwy bob trafferth
Yn y ddyrus anial daith,
Duw a'i dygodd o'r dyfnderoedd,
Adre'n iach i ben ei daith;
Y mae ef yn canu'n hwylus
Gyda'r saint angylaidd fri,
Am y waredigaeth gafodd
Trwy lawn aberth Calfari.

5 Ffarwel i filoedd gael eu cadw
Rhag y gwaeau'r dydd a ddaw,
Os nad yw Edwards wedi dianc
Rhag pob dychryn, aeth a braw;
Yr oedd yn gwylio ar ei gamrau
Tra parhaodd dyddiau'i oes,
I gadw'n bur holl lan orch'mynion
Crist fu farw ar y groes.

6 Pan oedd yma ar y ddaear,
Fe ymdrechai'n ddiwyd iawn
I gynghori pawb i garu
Y gwr fu farw un prydnawn;
Fe bregethai yn odidog
Am ddyoddefaint Crist a'i loes,
Trefn yr iachawdwriaeth hynod
Ddaeth trwy farw ar y groes.

7 Elai weithiau dro i Bethlem,
I wel'd Crist yn wael ei wedd,
A thrwy ddyrus daith canlynai
I ben y bryn a lawr i'r bedd;
Yma funyd fe arosai
I wel'd Crist yn nghudd mewn bedd,
Nes cyfodi i'r lan yn wrol,
Ac esgyn fry i wlad yr hedd.

8 Fe ddywedai 'i fod yn eiriol
Ar ei orsedd ger bron Duw,
Ac yn dadleu yno 'i haeddiant
Dros y gwaelaf o ddynol ryw;
Dyma'i destyn ef bob amser,
Oedd yr iachawdwriaeth lawn,
Yr unig gysur i bechadur
O foreuddydd hyd brydnawn.

9 Ac wrth feddwl na chaf weled
Ei olwg siriol ef yn awr,
Mwy na'i glywed mewn areithfa
Mewn un man ar ddaear lawr,
Gyda meddwl am ei ddoniau,
A'i fedrusrwydd yn y gwaith,
Mae fy nghalon mewn mawr alar
Yn y ddyrys anial daith.

10 Rhaid boddloni i'r amgylchiad,
Er in' golli'n hanwyl ffrynd,
Er mor anhawdd yw ymadael,
Ar ei ol mae'n rhaid in' fyn'd;
Hyn sy'n gysur i fy meddwl,
Er ei golli ar y llawr,
Iddo gael mwynhau cymdeithas
Well na fedd y ddaear fawr.

11 Mae ei gorff yn mynwent Hengoed
Yn mhriddellau oer y bedd,
A'i anfarwol enaid hedodd
I ardaloedd gwlad yr hedd;
Ond yn fuan gwawria'r boreu
Gwelir dydd y codi mawr,
Pawb a hunodd yn y beddrod
Ddont i'r lan o lwch y llawr.

12 'Rwy'n awr, er cysur, yn llefaru,
I chwi oll yn ddiwahan,
Ac er colli'r is fugeiliaid,
A'r gwaith yn wrol awn yn mlaen,

Y mae Iesu y pen Bugail
Yn teyrnasu 'nawr o hyd,
Ac ni rydd ei waith i fynu,
Nes yn eiddo 'r elo'r byd.

13 Dim ond gair, a hwnw unwaith,
Yn y dydd a ddaw ryw bryd,
Dim ond un, a dim yn rhagor,
" Feirw, de'wch i'r farn i gyd,"
Gair y goncwest galwaf hwnw,
O fel bloeddir ddydd a ddaw,
Gair y fuddugoliaeth ryfedd
Arnat, fedd, O cofia, ddaw.

14 Tair blwydd ar ddeg ar hugain
Oedd, pan aeth i'w wely pridd,
Yno'n dawel bydd yn gorwedd
Hyd yr adgyfodiad ddydd;
A thair blynedd a fu'n dreulio
I fugeilio Eglwys Dduw;
Bu yn ddiwyd trwy ei fywyd,
Nes myn'd adref at ei Dduw.

15 Arglwydd, eto, o'th drugaredd,
Anfon fugail yn ei le,
A fo'n blentyn mabwysiadol,
Cymeradwy gan y ne';
Cadw undeb trwy'r Eglwysi,
Cariad brawdol ar ei draed;
Cadw'r gelyn draw yn rhywle,
Fel na chynnyg wneuthur brad.

16 Cadw egwyddorion Bibl
Yn ymgeledd yn ein plith,
Nes myn'd adref i Gaersalem,
Lle na raid ymadael byth:
Rhof fy ngalar-gan i fynu,
Gan alaru'n brudd fy ngwedd,
A dymunaf byth gael canu
Gydag ef tu draw i'r bedd.

---

J. T. JONES, ARGRAFFYDD, CAERFYRDDIN.